
# Mynd ar Daith Breswyl i Bentrellyncymer

Paratoi ar gyfer fy nhaith.




Dyma Bentrellyncymer ar fap o Ogledd Cymru.

Taith ysgol pan fydda i'n aros dros nos gyda ffrindiau ac athrawon ydi taith breswyl.  Mae teithiau preswyl yn llawer o hwyl. Bydda i'n cael treulio amser gyda fy ffrindiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd a chyffrous. Dyma'r Ganolfan fydda i'n ei gweld pan fydda i'n cyrraedd.





Cyn i fi fynd ar fy nhaith breswyl, bydd _____________ yn fy helpu i bacio fy mag gyda'r pethau y bydda i eu hangen. Pan fydda i'n dweud ta-ta, efallai bydda i'n teimlo'n drist. Mae'n iawn teimlo'n drist. Bydd fy athrawon a ffrindiau yn fy helpu i deimlo'n well. Byddwn ni'n mynd yno ar fws. Bydda i'n eistedd lle bydd fy athro yn dweud wrtha i am eistedd a bydda i'n gwisgo gwregys diogelwch. Bydd yn cymryd tua _____ munud i gyrraedd yno.

Pan fydda i’n cyrraedd Pentrellyncymer, bydda i’n mynd â fy mag i’r ystafell a mynd i eistedd yn yr ystafell ddosbarth gyda fy ffrindiau. Bydda i’n gwrando ar yr hyfforddwr a fydd yn dweud wrtha i sut i fod yn ddiogel yn y Ganolfan, a pha weithgareddau fyddwn ni’n eu gwneud. Dyma rai o’r ystafelloedd fydda i’n eu defnyddio yng Nghanolfan Pentrellyncymer.



Ystafell Fwyta



Ystafell Ddosbarth



Ystafell Ddosbarth Awyr Agored



Storfa Offer

Ym Mhentrellyncymer, mae’n bwysig gweithio fel tîm a helpu ein gilydd. Mae hyn yn golygu efallai bydda i’n cael tasg i’w gwneud, fel tacluso fy ystafell wely, sgubo’r bws neu fynd â bwyd i fy ffrindiau.







Bydda i'n bwyta prydau yn yr ystafell fwyta. Bydda i'n paratoi fy mhecyn cinio fy hun. Pan fydda i'n bwyta, efallai bydd rhai bwydydd nad ydw i wedi eu blasu o'r blaen. Fydda i ddim yn gwybod sut flas sydd arnyn nhw heb roi cynnig arnyn nhw. Efallai bydd pobl yn gofyn i fi flasu bwyd newydd oherwydd eu bod yn credu y bydda i'n ei hoffi. Os bydda i yn ei hoffi, galla i ofyn am fwy. Os na fydda i'n ei hoffi, rydw i'n gwybod ei bod hi'n iawn dweud "Na, dim diolch". Mae blasu bwyd newydd yn ffordd dda o weld pa fwydydd rydw i'n eu hoffi a pha fwydydd fydda i'n eu hoffi o bosibl.







Ym Mhentrellyncymer, bydda i'n rhannu ystafell wely gydag un neu fwy o fy ffrindiau. Bydda i'n cysgu mewn gwely bync. Bydda i'n rhannu ystafell ymolchi gyda'r bobl yn fy ystafell wely. Dyma lun o'r ystafell wely ac ymolchi.





vid fy nilla

bydd ange




haul. Os bydd hi'n oer, neu os bydda i'n gwlychu, bydd angen i fi wisgo dillad sy'n fy nghadw i'n gynnes a sych. Mae'n bosibl y bydda i'n benthyg rhai dillad, fel dillad sy'n dal dŵr neu siwt wlyb, gan Bentrellyncymer. Dyma lle fydd angen i fi fynd i'w nôl nhw. Ar gyfer rhai gweithgareddau, bydda i'n cael helmed i'w gwisgo i fy nghadw i'n saff. Dyma'r dillad y galla i eu benthyg gan y Ganolfan.





Bydda i'n hongian fy nillad gwlyb yn yr ystafell sychu dros nos i sychu.



Rydym yn gwneud llawer o weithgareddau difyr ym Mhentrellyncymer. Mae'n beth da rhoi cynnig ar weithgareddau newydd. Bydd staff yno i fy helpu i. Mae'n rhaid i fi ddilyn cyfarwyddiadau a gwneud beth mae fy athrawon yn ei ofyn i fi wneud. Mae'n rhaid i fi wrando ar yr hyfforddwyr o Bentrellyncymer hefyd a dilyn cyfarwyddiadau. Os bydda i'n gwneud y pethau hyn, bydda i'n saff a bydda i'n cael amser gwych! Bydda i'n teithio ar fws mini i gyrraedd rhai gweithgareddau. Dyma rai o'r gweithgareddau bydda i'n eu gwneud ym Mhentrellyncymer.



Byw yn y Gwyllt



Beicio Mynydd



Wal Ddringo Dan Do



Canŵio



Cerdded Ceunentydd



Taith Gerdded Gyda'r Nos



Cyfeiriannu

Gyda'r nos, bydda i'n gwneud gweithgaredd nos ac wedyn, efallai bydd amser i fynd i'r ystafell gemau neu'r siop i brynu rhywbeth bach. Bydd fy athrawon yn dweud wrtha i beth alla i ei wneud, a faint o'r gloch ddylwn i fynd i gysgu.



Ar fy niwrnod olaf ym Mhentrellyncymer, bydda i'n pacio fy nillad i gyd i mewn i fy mag.  Byddwn ni'n gadael Pentrellyncymer ar ôl cinio, gan fynd yn ôl i'r ysgol ar y bws. Bydd fy rhieni yn dod i fy nôl i o'r ysgol pan fydd hi'n amser mynd adref. Efallai bydda i'n teimlo'n flinedig ar y ffordd adref. Mae'n iawn teimlo'n flinedig ar ôl bod yn brysur.



